

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

### BIL GWRTHRYCHAU DIWYLLIANNOL (GWARCHODAETH RHAG YMAFAEL)

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2.(ii). Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas ag unrhyw Fil Aelod Preifat yn Senedd y DU a oedd yn Fil perthnasol pan y'i cyflwynwyd ac sy'n dal yn Fil perthnasol ar ôl y cyfnod diwygio cyntaf yn y Tŷ y'i cyflwynwyd ynddo. Ystyr “Bil perthnasol” yw Bil sy'n cael ei ystyried yn Senedd y DU ac sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael) (“y Bil”), Bil Aelod Preifat, yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Mehefin 2021. Daeth y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin i ben ar 17 Tachwedd. Gohiriwyd gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn i alluogi'r gwaith o ystyried goblygiadau'r pŵer cydredol o fewn y Bil a'r trafodaethau cysylltiedig â Llywodraeth y DU. Gellir gweld y Bil yn: <https://bills.parliament.uk/bills/2906>

#### Amcan(ion) Polisi

3. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw diwygio Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 (“Deddf 2007”) i alluogi ymestyn gwarchodaeth rhag ymafael neu fforffedu ar gyfer gwrthrychau diwylliannol cymeradwy ar fenthyg o dramor i amgueddfeydd ac orielau'r DU. O dan Ddeddf 2007, mae gwrthrychau diwylliannol cymeradwy yn cael eu gwarchod am gyfnod o 12 mis o'r dyddiad y mae'r gwrthrych yn dod i mewn i'r DU. Bydd y Bil yn darparu diwygiad i Ddeddf 2007 i ganiatáu i'r cyfnod gwarchodaeth gael ei ymestyn am gyfnod pellach o hyd at 3 mis.
4. Bydd y diwygiad hwn yn lleddfu pryderon gan amgueddfeydd a benthycwyr rhyngwladol y gall gwrthrychau diwylliannol gael eu gadael heb eu gwarchod rhag ymafael ynddynt neu gael eu fforffedu, pe bai'r warchodaeth bresennol o 12 mis yn dod i ben cyn y gellir dychwelyd y gwrthrychau oherwydd oedi annisgwyl yn y DU.
5. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd yn sgil y tarfu ar deithio rhyngwladol yn ystod pandemig COVID-19 2020 a digwyddiadau amgylcheddol blaenorol (e.e. ffrwydrad llosgfynydd Eyjafjallajökull yng Ngwlad yr Iâ yn 2010) pan gafodd gwrthrychau a fenthycwyd a oedd i fod i gael eu dychwelyd i'w gwlad wreiddiol eu gohirio'n annisgwyl yn y DU, gan beryglu neu atal y broses o'u dychwelyd yn amserol i fenthycwyr rhyngwladol.

## **Crynodeb o'r Bil**

6. Mae'r Bil yn Fil rhodd, a gyflwynwyd fel Bil Aelod Preifat gan Mel Stride AS. Fe'i noddir gan Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU (DCMS).
7. Mae'r Bil yn diwygio adran 134 o Ddeddf 2007, i alluogi ymestyn y warchodaeth rhag ymafael sydd wedi'i gorchymyn gan y llys ar gyfer gwrthrychau diwylliannol sydd ar fenthyg o dramor i amgueddfeydd ac orielau'r DU am hyd at dri mis. Bydd y penderfyniad i ymestyn cyfnod o warchodaeth yn cael ei wneud yn ôl disgrisiwn yr awdurdod perthnasol. Yr awdurdodau perthnasol yw'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon mewn perthynas â sefydliad yn Lloegr, Gweinidogion Cymru, mewn perthynas â sefydliad yng Nghymru, Gweinidogion yr Alban, mewn perthynas â sefydliad yn yr Alban, a'r Adran Cymunedau, mewn perthynas â sefydliad yng Ngogledd Iwerddon.

## **Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

8. Mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y darpariaethau a ganlyn yn y Bil oherwydd eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig:
  - Mae Cymal 1 (Gwarchod gwrthrychau diwylliannol ar fenthyg) yn mewnosod is-adrannau 4A i 4D yn adran 134 o Ddeddf 2007;
    - a. Mae is-adran newydd 4A yn darparu bod gan yr awdurdod perthnasol y pŵer i ymestyn y cyfnod gwarchodaeth hwyaf am gyfnod pellach o hyd at 3 mis.
    - b. Mae is-adran newydd 4B yn diffinio awdurdod perthnasol ('relevant authority') at ddibenion is-adran 4A. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod perthnasol mewn perthynas â gwrthrych sydd yng Nghymru at y dibenion rhagnodedig.
    - c. Mae is-adran newydd 4C(a) yn darparu y gellir arfer y pŵer fwy nag unwaith mewn perthynas â'r un gwrthrych.
    - d. Mae is-adran newydd 4C(b) yn darparu pan fo'r pŵer yn arferadwy gan fwy nag un awdurdod perthnasol ar adeg benodol mewn perthynas â'r un gwrthrych, mae'n arferadwy ganddynt yn gyddredol.
    - e. Mae is-adran newydd (4D) yn egluro bod unrhyw estyniad a roddir o dan is-adran (4A) yn ychwanegol at y cyfnod gwarchodaeth hwyaf ('maximum protection period'), sy'n cynnwys y cyfnod cychwynnol o 12 mis o dan is-adran (4)(b) ynghyd ag unrhyw gyfnod ychwanegol o warchodaeth sy'n codi o dan is-adran (5) pan fo'r gwrthrych wedi dioddef difrod, ac unrhyw gyfnod o estyniad a roddwyd eisoes o dan is-adran (4A).
  - Mae Cymal 2 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â rhychwant, cychwyn a theitl byr;
    - a. Mae is-adran (1) yn nodi rhychwant tiriogaethol y Bil.

- b. Mae is-adran (2) yn nodi y bydd y diwygiadau o dan Gymal 1 yn dod i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis ar ôl i'r Ddeddf gael ei phasio.
  - c. Mae is-adran (3) yn darparu teitl byr y Bil.
9. Mae diben y darpariaethau a nodir uchod, i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru, yn ymwneud â gwarchodaeth gwrthrychau diwylliannol ar fenthyg i amgueddfeydd ac orielau yng Nghymru o dramor rhag ymafael. Nid yw'r darpariaethau'n ymwneud ag unrhyw faterion a gedwir yn ôl o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Felly, rydym o'r farn bod y darpariaethau hyn, gan gynnwys i'r graddau y maent yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Felly, ystyrir bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â'r darpariaethau uchod.

### **Pŵer Cydredol**

10. Mae is-adran (4C)(b) yn egluro bod y pŵer i ymestyn y warchodaeth yn arferadwy yn gydredol gan awdurdodau perthnasol ('relevant authorities') lluosog mewn perthynas â'r un gwrthrych. O dan ddarpariaethau presennol Deddf 2007, byddai'r gwrthrych yn cael ei warchod tra bo yn unrhyw le yn y DU am y cyfnod cychwynnol o 12 mis. Fodd bynnag, gan fod y mesurau yn y Bil hwn yn ymwneud â materion datganoledig, dim ond pan fo'r gwrthrych wedi'i gysylltu â'u tiriogaeth y gall yr awdurdod perthnasol ymestyn y warchodaeth hon ledled y DU. Pan fo'r gwrthrych wedi'i gysylltu â mwy nag un diriogaeth, mae is-adran (4C)(b) yn darparu y gellid arfer y pŵer yn gydredol i sicrhau bod y gwrthrych yn cael ei warchod ledled y DU.
11. Fel y'i drafftwyd, mae'r pŵer cydredol yn effeithio ar bwerau'r Senedd i wneud deddfwriaeth yn y maes hwn yn y dyfodol oherwydd y ffaith y bydd yn ofynnol i gael cydsyniad Gweinidog y Goron i ddileu swyddogaeth gydredol yr Ysgrifennydd Gwladol. Byddai'n gweithredu'r cyfyngiad ym mharagraff 11(1)(a) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd gael cydsyniad Gweinidog y Goron i ddeddfu, i ddileu neu addasu, mewn Deddf Senedd swyddogaeth Gweinidog y Goron sy'n ymwneud â swyddogaeth ddatganoledig gymwysedig.
12. Mae'r pŵer cydredol yn y Bil yn sicrhau y gellir gwarchod y gwrthrych ledled y DU ac yn lleihau unrhyw risg y bydd gwrthrych heb ei warchod tra bo yng Nghymru. Rydym wedi gofyn am welliant i'r Bil, yn unol ag Egwyddorion y Cabinet (egwyddor 8) ar bwerau cydredol (gweler uchod) ac mae'r trafodaethau'n mynd rhagddynt. Byddai'r gwelliant yn galluogi eithriad ar gyfer y cyfyngiadau perthnasol yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## **Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael)**

13. Bydd sicrhau bod y darpariaethau yn y Bil yn gymwys i Gymru yn diogelu mynediad diwylliannol cydradd i fenthyciadau rhyngwladol i'r cyhoedd ar draws pedair gwlad y DU. Heb y darpariaethau hyn, mae'n debygol y bydd amgueddfeydd ac orielau Cymru yn cael eu rhoi o dan anfantais o ran atal benthydwyr rhyngwladol rhag benthyca gwrthrychau i'w harddangos mewn arddangosfeydd teithiol/dros dro yng Nghymru. Heb y darpariaethau hyn, mae'r isod yn bosibl:
- Ni fydd arddangosfeydd teithiol y DU yn gallu cael eu harddangos yng Nghymru
  - Os bydd arddangosfeydd teithiol y DU yn cael eu harddangos, mae'n debygol na fydd rhai eitemau o dramor yn cael eu cynnwys yn yr arddangosfa yn ystod ei harhosiad yng Nghymru, gan arwain at arddangosfa o ansawdd is yng Nghymru nag mewn gwledydd eraill
  - Efallai na fydd amgueddfeydd a sefydliadau diwylliannol o rai gwledydd yn rhoi benthyg arteffactau i leoliadau Cymru
  - Posibilrwydd o niwed i enw da os ymafaelir mewn eitem ar fenthyg i leoliad yng Nghymru oherwydd diffyg estyniad i warchodaeth.
14. Mae'n rhesymol defnyddio'r Bil hwn ar gyfer y DU i wneud y darpariaethau hyn i sicrhau cysondeb ledled y DU mewn perthynas â gwarchodaeth a roddir i wrthrych, a sicrhau hefyd y gellir rhoi gwarchodaeth i'r gwrthrych ym mhob gwlad yn y DU.

### **Goblygiadau ariannol**

15. Ni ddisgwylir i'r Bil olygu gwariant cyhoeddus ychwanegol mawr na newidiadau i adnoddau gwasanaethau cyhoeddus.
16. Byddwn yn ymgynghori â swyddogion yn yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i greu canllawiau, gweithdrefnau a dogfennau sy'n angenrheidiol i weinyddu'r darpariaethau o dan y Bil. Rhagwelir y byddai gwaith gweinyddu'r darpariaethau yn dod yn rhan o gyfrifoldebau Cynllun Eiddo Diwylliannol y DU Llywodraeth Cymru ac felly byddai aelodau o staff presennol yn ymdrin â hwy.
17. Bydd angen i staff perthnasol mewn amgueddfeydd, orielau a sefydliadau eraill ymgyswngu â chanllawiau a dogfennau diwygiedig mewn perthynas â'r newid deddfwriaethol a bydd costau pontio yn berthnasol o ran amser staff. Mae hyn yn debygol o fod yn isel o ran cost.

## **Casgliad**

18. Rwy'n argymhell bod y Senedd yn cydsynio i'r cymalau a geir yn y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael), ac eithrio is-adran 4C(b) yr ydym yn ceisio gwelliant arni. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU oherwydd:
- a. Bydd yn sicrhau dull gweithredu ledled y DU ac yn caniatáu i ddarpariaethau ddod i rym ar yr un pryd ar draws y DU.
  - b. Bydd yn sicrhau nad yw amgueddfeydd, orielau a sefydliadau eraill Cymru yn cael eu rhoi o dan anfantais o'u cymharu â gwledydd eraill yn y DU.
  - c. Bydd y Bil yn gwneud newidiadau synhwyrol a phwysig i'r cynllun gwarchodaeth rhag ymafael yn llawer cynt nag y gellid ei gyflawni drwy ddeddfwriaeth ar wahân i Gymru.
19. Rwy'n cadw'r penderfyniad yn ôl o ran argymhell cydsyniad i'r ddarpariaeth pŵer cydredol 4C(b) tan fod canlyniad y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU.

**Dawn Bowden AS**  
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**  
**10 Rhagfyr 2021**